



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD MERCHER, 1AF MAI, 2019

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Rhonwen Jones

01286 679780

RhonwenJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 24/4/19)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I ddatgan unrhyw fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw faterion brys sydd wedi codi.

4. COFNODION

4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2019, fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

11 - 13

Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor

6. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION MAES Y GYMRAEG

14 - 15

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

7. HUNANIAITH - MENTER IAITH GWYNEDD

16 - 21

Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

8. CYFARFODYDD PWYLLGOR IAITH

22 - 24

Amcan yr adroddiad yw ystyried nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol.

PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 17 IONAWR 2019

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Alan Jones Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Charles Wyn Jones, Elwyn Jones, Eric M. Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Eirwyn Williams ac Elfed Wyn Williams.

Swyddogion: Gwenllïan Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau), Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is Gadeirydd y Cyngor)

Ar gyfer eitem 7 ac 8: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Elin Walker Jones a'r Aelod Cabinet dros iaith Cyng. Nia Jeffreys.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 18 Hydref, 2018 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD AELOD CABINET DROS YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg yr adroddiad yn absenoldeb yr Aelod Cabinet. Nodwyd ei bod wedi bod yn gyfnod tawel gyda chynlluniau hybu yn mynd rhagddi. Mynegwyd fod y cynllun Hybu'r Gymraeg yn fewnol yn datblygu yn dda a bydd diweddariad yn dod i'r Pwyllgor Iaith yn fuan.

Tynnwyd sylw at gynllun 'Common Voice Cymraeg' sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Nodwyd mai ymgais yw'r cynllun i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleisiau, fel bod peiriannau yn gallu deall yr hyn yr ydych yn dweud wrthynt er mwyn ymateb. Ychwanegwyd y bydd ymgyrch yn cael ei gynnal ym mis Mawrth er mwyn annog pobl gyfrannu i'r cynllun, y mwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y gorau y

bydd y gallu eu dehongli.

Cadarnhawyd fod Hunaniaeth wedi derbyn grant am y ddwy flynedd nesaf, a bod rhaglen waith drafft wedi ei greu. Ategwyd fod trafodaethau yn cael ei gynnal gyda Llywodraeth Cymru er mwyn proffesiynoli'r maes.

6. ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG- MESUR O LWYDDIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd cyfrifiad arall yn cael ei gynnal mewn dwy flynedd. Nodwyd fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod blaenorol ond fod angen crynodeb a thrafod y nodweddion perthnasol i Wynedd. Mynegwyd yn flynyddol fod Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sydd yn destun ymchwil gan ei swyddogion am lwyddiannau sefydliadau i weithredu a chydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg. Ychwanegwyd eu bod yn cyhoeddi'r adroddiadau er mwyn cynnig barn annibynnol er mwyn rhoi gwybod i siaradwyr Cymraeg, i dynnu sylw sefydliadau at arferion llwyddiannus ac i ddarparu tystiolaeth i wleidyddion. Mynegwyd mai adroddiad am 2017/18 yw'r adroddiad hwn, gan nodi fod gwaith datblygu wedi ei wneud bellach.

Esboniwyd fod yr adroddiad yn amlygu tair prif her i sefydliadau fel y nodir isod

- Datblygu eu darpariaeth er mwyn sicrhau gof gwasanaethau Cymraeg ar gael ac o ansawdd, ac nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Gwella dealltwriaeth o'r rhesyma dros benderfyniadau defnyddwyr, a chymred camau cadarnhaol i hybu a hwyluso defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg
- Rhoi ystyriaeth fanwl a strategol ar sut i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mynegodd y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg, fod yr adroddiad yn codi sawl pwynt diddordeb, ond ei bod am ganolbwyntio ar 3 argymhelliad i sefydliadau.

Argymhelliad 1 - Nodwyd er bod profiadau defnyddwyr yn dal i wella, mae angen cysondeb er mwyn rhoi ffydd i bobl fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg, ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mynegwyd mai Technoleg yw'r mater dan sylw a bod llawer o ddatblygiadau wedi bod yn dilyn arolwg gael ei gynnal o'r gwasanaeth hunanwasanaeth. Ond ategwyd, er bod hyn yn gadarnhaol fod angen fod yn wiliadwrus o ap piau newydd i sicrhau fod y ddwy iaith yn gweithio. Ychwanegwyd fod angen edrych i mewn i greu ap piau ein hunain yn hytrach na cheisio addasu rhai sydd ar gael yn Saesneg yn barod.

Argymhelliad 2 - Nodwyd mai'r argymhelliad oedd i sefydliadau annog defnyddio gwasanaethau Cymraeg, a'u gwneud yn hawdd i'w defnyddio a deall profiadau go iawn ddefnyddwyr. Mynegwyd fod yr argymhelliad yma wedi ei thrafod mwy nad unwaith, a bod y dystiolaeth a gyflwynwyd ddim yn codi dim pryderon newydd. Nodwyd fod angen meddwl am ffordd o ddelio gyda'r rhwystrau. Ychwanegwyd fod rhai adrannau o fewn y Cyngor wedi bod yn ceisio gwneud mwy o ddefnydd o Gymraeg clir ac i leihau'r defnydd o eiriau mwy technegol.

Trafodwyd ffurflenni gan nodi fod ymchwiliad ym Mangor wedi dangos mai dim ond hanner y cyfranogwyr oedd yn dewis llenwi ffurflenni drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd ei fod yn codi'r cwestiwn os oes angen creu ffurflenni dwyieithog, ac i ystyried camau syml i newid hyn. Nodwyd fod yr adroddiad cenedlaethol yn nodi y

byddai pobl yn 'debygol iawn o wneud cais swydd yn Gymraeg os yw'r Gymraeg yn hanfodol' i'r swydd. Serch hyn, nodwyd fod nifer uchel o geisiadau swyddi yng Ngwynedd yn cael ei gyflwyno drwy'r Saesneg. Ychwanegwyd fod hyn er bod lefel o Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd.

Wrth edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Cyhoeddus nodwyd fod y safonau yn nodi fod modd cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd fod polisi'r Cyngor yn nodi fod Cyfarfodydd i gyd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd fod angen amlygu hyn i'r Comisiynydd Iaith.

Argymhelliad 3 - nodwyd mai'r argymhelliad oedd yr angen i sefydliadau roi ystyriaeth strategol a manwl i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, ac o ran iaith gweithredu fewnol. Nodwyd fod angen asesu'r drefn sydd gan y Cyngor o asesu effaith, gan fod y safonau yn gofyn i sefydliadau ystyried sur y gellir gweithredu penderfyniad mewn ffordd sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Mynegwyd wrth edrych ar waith sydd yn cael ei wneud drwy grantiau a chontractau, cydnabuwyd fod gwaith i'w wneud yn y maes hwn. Ychwanegwyd ei fod yn flaenoriaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod yr adroddiad yn dangos brwdfrydedd yn y maes, ond fod dros 60% o ymatebwyr sydd yn rhan o'r data yn peidio defnyddio'r iaith o ganlyniad i resymau sy'n ymwneud a hyder. Mynegwyd fod angen mynd i'r afael a chodi hyder. Holwyd yn ychwanegol at faint y sampl a phobl a ddefnyddiwyd gan drafod pa mor wyddonol gywir yw'r sampl.
- Trafodwyd dechrau sgysiau yn Gymraeg, gan holi os yw hyn yn digwydd ym mhob lleoliad o fewn y Cyngor gan gynnwys Canolfannau Hamdden. Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud a'i fod yn ddisgwyliad ar bob aelod o staff i gychwyn sgwrs drwy'r Gymraeg. Nodwyd efallai fod angen gwneud ymarferion i weld os hyn digwydd ym mhob lleoliad. Ychwanegwyd fod defnydd o'r iaith Gymraeg yn llafar i'w weld ar bob swydd ddisgrifiad.
- Trafodwyd ceisiadau swyddi gan nodi ei bod yn syniad efallai fod adran i ddangos eu sgiliau ysgrifenedig Cymraeg yn rhan o Ffurflen Gais y Cyngor.
- Mynegwyd wrth edrych ar ffurflenni, fod angen casglu gwybodaeth er mwyn ystyried creu ffurflenni dwyieithog. Ychwanegwyd fod angen sicrhau yn gyntaf dealltwriaeth o sut i ddefnyddio, deall a datblygu data. Mynegwyd angen am roi rhaglen at ei gilydd ar sut i gasglu gwybodaeth.
- Nodwyd wrth drafod gofyn y Safonau am i Gyngor Gwynedd 'ystyried sut y gellir gweithredu penderfyniad mewn ffordd sy'n arwain at effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg' y dylai'r Cyngor gof yn llawer gwell am wneud hyn. Mynegwyd fod y Cyngor yn gwneud asesiadau effaith sydd yn adnabod y risgiau ieithyddol ond efallai fod pobl yn cymryd y maes yma yn ganiataol. Mynegwyd efallai fod trigolion Gwynedd yn rhoi ymddiriedaeth yn yr aelodau i sicrhau fod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth. Nodwyd yr angen i'r Cyngor fod yn gwneud camau ychwanegol i sicrhau fod y Gymraeg yn flaenoriaeth ac i fod yn fwy rhagweithiol.
- Mynegwyd fod cynnydd yn y nifer o swyddi ble mae'r angen am siaradwyr Cymraeg - a holwyd pa waith mae'r adran yn ei wneud i roi'r neges yma i ddisgyblion o fewn ysgolion. Nodwyd fod Hunaniaeth yn gwneud gwaith cyson a phobl ifanc, ond nodwyd ei fod yn faes ble maent yn edrych ar sut

mae gwybodaeth yn cael ei rannu ac mae angen trafodaeth bellach ar y maes.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

7. ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd y Pennaeth Adran Addysg yn mynd drwy saith deilliant sydd yn rhan o'r Cynllun Strategol er mwyn cael trafodaeth ar y meysydd.

Deilliant 1 - Mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegodd y Pennaeth Addysg fod y targed o 99.1% yn darged cwbl uchelgeisiol ac y gwir ganran yw 97.9%. Nodwyd mai hwyr ddyfodiad gan blant heb ddim Cymraeg yw un o'r rhesymau dros beidio cyrraedd y targed. Ychwanegwyd fod un ysgol o fewn dalgylch Bangor o ganlyniad i fod yn ysgol grefyddol a mwy o annibyniaeth ieithyddol. Mynegwyd yn dilyn penodiadau newydd i'r ysgol fod newidiadau wedi bod i agwedd yr ysgol at yr iaith.

Deilliant 2 - Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Uwchradd. Nodwyd fod y canran yn is ac yn 83.4% o'i gymharu â'r taged o 84.7%. Mynegwyd fod hyn o ganlyniad i un ysgol uwchradd ym Mangor. Mynegwyd fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r ysgol a bod gwelliant sylweddol wedi digwydd gyda chynnydd yn y nifer sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Deilliant 3 a 4 - Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio at gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg a Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Ysgolion, Colegau a Dysgu Seiliedig ar Waith. Nodwyd fod data calonogol ar gyfer llwybr 14-19oed. Nodwyd ei bod yn anodd mesur faint yn union sydd yn gwneud eu harholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd yn 2016-17 fod 79% wedi cofrestru i wneud TGAU Cymraeg iaith Gyntaf. Nodwyd fod yr adran yn parhau i weithio gyda'r ysgolion i sicrhau cyrsiau amodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 5 - Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg. Nodwyd fod y targed cyntaf - sef fod 77.2% o ddisgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a Graddau A* i mewn TGAU yn darged heriol. Mynegwyd fod canran Gwynedd yn uwch 'na chanran llawer o siroedd. Mynegwyd fod cwmp yn y canrannau eleni yn cyd-fynd a'r cwmp cenedlaethol mewn canlyniadau. Mynegwyd fod y canlyniadau'r deilliant yma yn cyd-fynd a buddsoddiad y sir mewn trochi pobl ifanc yn yr iaith.

Deilliant 6 - Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyfrwng Cymraeg. Nodwyd nad oes targedau ar gael ar gyfer darpariaeth anghenion Dysgu ychwanegol a bod hyn o ganlyniad i ddarpariaeth ar gael yn ddwyieithog i'r holl ddisgyblion.

Deilliant 7 - Cynllunio'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Nodwyd fod y mater yma yn fater sydd wedi codi yn benodol yn rhanbarthol. Gan fod angen sicrhau gweithlu o safon uchel er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mynegwyd fod angen gwella sgiliau athrawon ac angen i ysgolion fod yn arwain ar godi'r defnydd o'r Gymraeg. Nodwyd pan drafodwyd y Siarter Iaith Uwchradd a'r ysgolion, fod Ysgol Friars a Thywyn wedi bod yn flaengar iawn ac yn cyfrannu llawer mwy at y drafodaeth. Mynegwyd yn Ysgol Tywyn fod gwaith arbennig o dda wedi ei wneud a bod y Gymraeg drwy'r cynllun wedi ei dreiddio i mewn i'r gymuned.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am ddefnydd o'r iaith gyda rhieni sydd yn Dysgu eu plant o gartref. Nodwyd yn genedlaethol fod nifer y rhai sydd yn addysgu eu plant o'r cartref wedi codi ond eu bod yn parhau i fod yn ganran hynod o isel.
- Trafodwyd dalgylch Bangor yn enwedig gan fod gwaith ail strwythuro ar droed, a holwyd os bydd yn gwneud gwahaniaeth o ran iaith i'r ysgol grefyddol. Mynegwyd yn rhan o'r ail strwythuro fod y plant yn dueddol o fynd i ddwy ysgol arall ym Mhenrhosgarnedd.
- Trafodwyd lleihad mewn nifer o blant sydd yn cael eu hasesu drwy'r Gymraeg erbyn Cyfnod Allweddol 3 - nodwyd mai'r rheswm dros hyn oedd un Ysgol Uwchradd ym Mangor.
- Nodwyd y byddai yn syniad da i gael aelodau o staff a disgyblion o Ysgol Tywyn i ddod draw i'r Pwyllgor Iaith i drafod sut mae'r Siarter Iaith Uwchradd wedi mynd ymhellach ac wedi gallu newid agweddau at yr iaith o fewn y gymuned. Mynegwyd fod angen nodi beth yw'r arferion da o fewn Ysgol Tywyn fel bod modd lledaenu i ysgolion eraill ar draws y sir.
- Trafodwyd os oes modd rhwydweithio ac ysgolion ar draws Cymru ac nid Gwynedd yn unig, gan fod angen efallai rhannu arferion da'r sir ar draws Cymru. Mynegwyd fod arferion da yn cael ei rhannu yn rhanbarthol drwy GwE.
- Nodwyd fod gwaith da yn cael ei wneud mewn ysgolion ac mae ystadegau arbennig o dda. Mynegwyd fod Ysgol Dolbadarn wedi derbyn rhagorol yn y 5 maes, ac yn un o ddwy ysgol drwy Gymru sydd wedi derbyn rhagorol yn y maes.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

8. AIL-STRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg wybodaeth ar ail strwythuro'r Canolfannau Iaith yng Ngwynedd. Nodwyd fod pedwar opsiwn wedi eu trafod, yn unol â phroses ymgynghorol Adnoddau Dynol, gyda staff y canolfannau a'r undebau perthnasol yn ystod Hydref 2018.

Nodwyd fod newid yn annatod er mwyn ymateb i sefyllfa ariannol yn sgil colli grant gan Lywodraeth y Cynulliad sydd yn arwain at ddiffyg o £96,000 ar gyfer 2019/20. Nodwyd na all y gwasanaeth Addysg ddarparu arian cyfatebol.

Manylwyd ar y 4 opsiwn sydd dan ystyriaeth yn gyfredol, gan nodi fod y gwasanaeth wedi edrych ar yr ochor gyllidol, effaith ar safon dysgu'r Gymraeg, a sicrhau diogelwch o fewn y canolfannau (h.y. isafswm o ddau berson ym mhob canolfan) cyn cyflwyno'r opsiynau.

Amlinellwyd yr opsiynau a ganlyn:

Opsiwn 1:

- Cau un Canolfan Iaith Gynradd.
- Cynyddu Capasiti pob Canolfan Iaith i dderbyn 19 o ddysgwyr.
- Strwythur staffio o Arweinydd ac Athrawes ymhob Canolfan Iaith.

Opsiwn 2:

- Pob Canolfan Iaith yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith.

Opsiwn 3:

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Gynradd, strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na leolir yr Arweinydd).
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd yn y Canolfan Iaith Uwchradd

Opsiwn 4:

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Gynradd ac Uwchradd, gyda strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na leolir yr Arweinydd).

Derbyniwyd sylwadau gan Aelodau oedd yn gwrthwynebu'r opsiynau a amlinellwyd gan y gwasanaeth Addysg. Nodwyd pryder am effaith ar ansawdd yr addysg os byddai rhaid dewis un o'r opsiynau uchod. Nododd rhai Aelodau y byddent yn dymuno trafodaethau pellach gyda'r athrawon ynglŷn â'r opsiynau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Addysg bod trafodaethau cyfreithiol wedi eu cyflawni gyda'r athrawon yn unol â'r gofynion.

Eglurwyd y bydd yr eitem o flaen y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 24 o Ionawr 2019.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

9. CWYNIION IAITH

Cyflwynwyd yr eitem gan nodi nad oedd adroddiad ysgrifenedig. Mynegwyd y bydd adroddiad llawn yn cael ei gynnwys yn y cyfarfod nesaf. Esboniwyd mai'r brif eitem i'w

drafod oedd negeseuon allan o swyddfa staff, yn benodol yn fewnol, gan fod yr holl aelodau bellach yn cael ei gynnwys fel staff y Cyngor. Nodwyd fod cwyn wedi ei godi fod y negeseuon allan o swyddfa yn uniaith Gymraeg yn fewnol. Holwyd os dylai fod yn ddwyieithog, penderfynwyd fod angen iddo aros yn uniaith Gymraeg ac i egluro i'r aelod a oedd wedi codi'r mater.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.35 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1af o Fai 2019
TEITL:	Adroddiad yr Aelod Cabinet
AWDUR:	Cynghorydd Nia Jeffreys
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

1. Gwobr Dafydd Orwig

Rhoddir dwy wobwr flynyddol bellach, i gydnabod unigolion o fewn y Cyngor sydd yn dysgu'r Gymraeg, ond hefyd i unigolion neu dimau sydd yn gwneud ymdrech arbennig, neu yn mynd y tu hwnt i'w swyddi arferol i hybu'r Gymraeg ac i sicrhau bod posib i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau'n defnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Enillwyd y gwobrau eleni gan Nancy Wilkinson (Swyddog Amgylchedd yn Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant (am eu gwaith i sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant IOSH).

2. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor

2.1 *Datblygu Strategaeth Iaith sirol.*

Mae gwaith yn symud yn ei flaen, ond angen codi momentwm o fewn y misoedd nesaf. Mae angen rhoi blaenoriaeth hefyd i sefydlu trefn ar gyfer casglu gwybodaeth ac enghreifftiau o weithredu gan wahanol wasanaethau'r Cyngor sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r *Cynllun Hybu*.

Ers dechrau Ebrill, mae swyddog datblygu yn cael ei rannu rhwng yr Uned Iaith a gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, a bydd amser y swyddog yn cael ei rannu rhwng cefnogi gwaith y dynodiadau iaith a gwaith gweithredu'r Cynllun Hybu.

2.2 *Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasu naturiol yng nghymuendau'r sir drwy waith Hunaniaith*

Mae adroddiad a chyflwyniadau am waith Hunaniaith yn rhan o raglen y cyfarfod hwn.

3. Prosiectau Cynllun y Cyngor

3.1 *Busnesau yn Defnyddio'r Gymraeg*

Bydd y Pwyllgor yn cael cyflwyniad gan Swyddog Byd Busnes Gwynedd yn ystod y cyfarfod hwn. Mae'r prosiect Cymraeg Byd Busnes yn un enghraifft o waith sydd yn cael ei wneud y tu hwnt i wasanaethau'r Cyngor i annog busnesau sector breifat i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ac i gynnig gwasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid.

Mae gwaith mapio wrthi'n cael ei wneud i edrych ar yr hyn sydd yn cael ei wneud gan swyddogion y Cyngor a phrosiectau allanol i gefnogi busnesau, a hynny er mwyn ceisio adnabod lle mae bylchau ac a oes mwy y gallai'r Cyngor ei wneud yn y maes hwn.

3.2 *Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus*

Mae Is-grŵp y Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu prosiectau ar sail y flaenoriaeth sydd wedi ei gosod gan y Bwrdd Gwasanaethau i hybu'r Gymraeg. Mae prosiectau yn cael eu datblygu i geisio mynd i'r afael a sawl mater, ond mae dwy brif ffrwd gwaith:

Thema 1: Rhannu arfer dda ymysg y cyrff cyhoeddus - Sut yr ydym yn dysgu o brofiadau ein gilydd fel cyrff cyhoeddus, ac yn gallu cysoni'r ffordd rydym yn delio gyda gwahanol heriau o ran cynnig gwasanaethau dwyieithog.

Thema 2: Profiad y dinesydd – sut rydym yn sicrhau bod cysondeb o ran y ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn y cyswllt cyntaf yna rhwng defnyddiwr a gwasanaeth, a sut allwn ni annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd yn cael eu cynnig.

Megis cychwyn y mae'r gwaith yma a byddwn yn diweddarau'r Pwyllgor wrth i bethau ddatblygu.

3.3 *Cymraeg yn y Gweithle*

Mae gwaith ar y **dynodiadau iaith** yn mynd ymlaen yn dda, gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn adrodd eu bod yn cael ymateb da gan yr adrannau rheng flaen sydd wedi eu targedu hyd yma, a bod cynnydd yn nifer y staff sydd yn holi am hyfforddiant o ryw fath i wella eu sgiliau Cymraeg.

4. **Datblygiadau eraill**

- 4.1 Mae'r **Canllawiau Cynllunio Atodol** newydd ar fin cael ei fabwysiad, ac mae sgysiau'n cael eu cynnal i rhwng yr uned Gynllunio a'r Uned Iaith er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau cyfeirio priodol yn eu lle.
- 4.2 Ymgyrch ddiweddar wedi ei chynnal i gefnogi gwaith **Common Voice**, sef cynllun ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a Mozilla, i ddatblygu'r cronfeydd data llais sydd ei angen ar gyfer datblygu technoleg adnabod llais. Lanswyd yr ymgyrch dros Wyl Ddewi, a bydd yr Uned Iaith a'r Uned Gyfathrebu yn mynd ati i godi ymwybyddiaeth am y prosiect, ac i annog staff y Cyngor i gymryd rhan dros y misoedd nesaf.
- 4.3 Mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio gwneud newidiadau bychain hefyd i gryfhau statws y Gymraeg fel iaith gweinyddiaeth y Cyngor. Y Cyngor yw un o'r unig gyrff cyhoeddus, os nad yr unig, sydd wedi mabwysiadu **llyw.cymru** yn unig ar gyfer ei gyfeiriadau e-bost, ac mae gwaith yn cael ei

wneud ar draws y Cyngor ar hyn o bryd i geisio cael mwy o'r gweithwyr i ddefnyddio rhyngwyneb **Office** Cymraeg ar eu cyfrifiaduron.

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1af o Fai 2019
TEITL:	Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion maes y Gymraeg
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:

Mae dau achos penodol wedi dod i'n sylw dros y misoedd diwethaf lle mae swyddogion y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod y trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

- 1. Hyfforddiant diogelwch IOSH** – cafodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant eu cydnabod yng ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau yn ddiweddar am eu gwaith i sicrhau bod modd cael hyfforddiant IOSH yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers cryn amser, roedd staff y Cyngor wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn, ond yn gorfod defnyddio deunyddiau Saesneg yn unig gan nad oedd y corff siartredig yn darparu deunyddiau dwyieithog. Roedd y mater wedi ei gyfeirio at y Comisiynydd er mwyn cael eu cefnogaeth nhw i ddwyn pwysau ar y darparwyr, ond yn y pen draw, ymdrechion swyddogion y Cyngor, yn tynnu sylw at ofynion y Safonau a galwadau gan staff am ddeunyddiau Cymraeg, lwyddodd i newid y sefyllfa.
- 2. Ffurflen ar lein newydd direct.gov ar gyfer Bathodyn Glas**

Mae Rheolwr Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd a'i swyddogion yn gweithio yn galed ar hyn o bryd i sicrhau bod y ffurflen ar-lein newydd ar gyfer ceisiadau Bathodyn Glas yn cwrdd a gofynion y Safonau a pholisi'r Cyngor. Roedd y swyddogion wedi sylwi wrth brofi'r system (cyn mynd yn fyw) bod nifer o wallau a chamgymeriadau gyda'r fersiwn Gymraeg, ac mae'r Cyngor wedi gwrthod trosglwyddo i'r system ar-lein newydd heb i newidiadau gael eu gwneud ac nes y bydd yn cyrraedd y safon disgwylidig. Maent wedi bod yn cydweithio gyda'r uned gyfieithu a thîm y we i wirio'r system, ac wedi codi'r mater efo'r darparwr ac efo Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn parhau ar hyn o bryd a'r system yn dal heb fynd yn fyw.

CWYNIION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

Derbyniwyd 3 cwyn gan y Comisiynydd ers Ionawr 2019, gyda phenderfyniad i beidio ymchwilio ymhellach i'r tri yn dilyn derbyn manylion pellach gan y Cyngor.

CSG427 – E-bost safonol Saesneg yn unig wedi ei anfon mewn ymateb i e-bost Gymraeg anfonwyd at GwE. Terfynwyd yr ymchwiliad wedi i'r Comisiynydd dderbyn gohebiaeth gan uned Gyfreithiol y Cyngor oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd Safonau'r Cyngor yn berthnasol i GwE oherwydd eu statws fel cyd-bwyllgor ac y dylai'r Comisiynydd o'r herwydd osod safonau ar wahân, penodol ar eu cyfer.

CSG460 – Derbynneb uniaith Saesneg wedi ei anfon gan **Bartneriaeth Prosesau Cosb Cymru**. Roedd hyn wedi digwydd o ganlyniad i nam technegol ar ôl i'r gweinyddwyr wneud diweddariadau i'r system dalu. Roedd y mater eisoes wedi dod i sylw'r Cyngor ac wedi ei ddatrys erbyn derbyn y gwyn gan y Comisiynydd, a chytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor eisoes wedi delio gyda'r mater yn briodol.

Able2 – Derbyniwyd ymholiad gan y Comisiynydd am y gwasanaeth hwn, sydd yn cynnal asesiadau a phrosesu ceisiadau Bathodyn Glas ar ran y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyngor mai gwasanaeth dan reolaeth y Llywodraeth oedd hwn, a bod y Cyngor eisoes wedi derbyn sawl cwyn am y gwasanaeth ac wedi cyfeirio pryderon at y Llywodraeth am safon y gwasanaeth cyfrwng Gymraeg ar sawl achlysur. Wedi adrodd hyn, cytunodd y Comisiynydd nad oedd cyfrifoldeb ar y Cyngor am y mater, ac maent wedi cyfeirio y gwyn a phryderon Cyngor Gwynedd at yr adran berthnasol yn y Llywodraeth.

CWYNIION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Cyllid	2	Peiriannau ateb: 1 neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb y gwasanaeth sy'n delio gyda cheisiadau pas bws. 1 neges uniaith Gymraeg ar beiriant ateb y gwasanaeth treth Cyngor.
Cefnogaeth Gorfforaethol	1	Ymholiad gan swyddog o GwE wedi i neges fewnol gael ei hanfon yn uniaith Gymraeg a'r Saesneg yn yr atodiad, yn ôl yr arfer ar gyfer cyfathrebu mewnol. Cadarnhawyd bod y neges yn cydymffurfio gyda gofynion y Polisi Iaith.

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1 Mai 2019
TEITL:	Hunaniaith – menter iaith Gwynedd Diweddariad ar eu gwaith
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

1. Cefndir

- 1.1 Mae hunaniaeth yn bodoli fel menter iaith oddi fewn i Uned Iaith y Cyngor ers 2009.
- 1.2 Bwriad gwreiddiol y fenter, yn ôl ei Strategaeth Iaith 2010-2013 oedd:
 - Gosod cyfeiriad strategol i gynllunio ieithyddol yng Ngwynedd
 - Cydlynu ac ychwanegu gwerth i waith partneriaid er mwyn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r iaith Gymraeg
 - Datblygu, sbarduno a chychwyn prosiectau arloesol newydd er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg
 - Ynghyd a chynnal a gweithredu nifer o brosiectau'n uniongyrchol, neu ar y cyd gydag adrannau, sefydliadau neu bartneriaethau eraill.
- 1.3 Mae'r bwriadau hyn yn dal i fod yn berthnasol, er bod gwaith y fenter bellach wedi esblygu a newid cryn dipyn, o fod yn gweithredu'n strategol yn unig i fod yn cynnig mwy o ymyrraeth a gweithgareddau uniongyrchol mewn cymunedau.
- 1.4 Caiff hunaniaith ei ariannu gan y Llywodraeth drwy gyfrwng **Grant Hybu a Hyrwyddo Defnydd y Gymraeg**. Y grant hwn sydd yn ariannu gwaith yr holl fentrau iaith ar draws Cymru.
- 1.5 Mae blaenoriaethau a gwaith y fenter felly yn gorfod cyd-fynd gydag amcanion cyffredinol y Llywodraeth yn y maes, ac yn dilyn meysydd gweithredu strategaeth iaith y Llywodraeth, **Cymraeg 2050**. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>. Mae'r Llywodraeth yn gofyn i'r mentrau weithredu dan Thema 2 yn bennaf, ac ar y flaenoriaeth i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned, er bod sawl menter hefyd yn gweithredu ar draws meysydd eraill.
- 1.6 Yn 2016, cynigiwyd sicrwydd grant am gyfnod o 3 blynedd i'r mentrau iaith, ac fel rhan o amodau'r grant, bu rhaid llunio Cynllun Corfforaethol. Dogfen lywodraethol oedd hon, yn

cynnwys nodau ac amcanion y fenter ar gyfer y cyfnod o dair blynedd, dadansoddiad o gryfderau a gwendidau, a gwybodaeth gyllidol a staffio.

- 1.7 Rhoddodd llunio'r cynllun hwnnw gyfle i ni am y tro cyntaf edrych ar yr amcanion hir dymor yn y strategaeth ac i gynllunio gwaith y fenter y tu hwnt i flwyddyn ar y tro, gan sicrhau parhad ystyrlon i waith yn yr ardaloedd targed.
- 1.8 Yr ardaloedd a ddewiswyd i'w targedu yn ystod y cyfnod tair blynedd oedd **Dolgellau, Tywyn, Pwllheli, Porthmadog, Bangor**. Y bwriad oedd defnyddio'r canolfannau trefol hyn fel hwb i weithgarwch.
- 1.9 Y ddwy flaenoriaeth a osodwyd ar gyfer gwaith hunaniaith oedd grymuso ac arfogi unigolion a grwpiau cymunedol, a chynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a gweld ei gwerth i'w bywydau.
- 1.10 Roedd Mawrth 2019 yn dynodi diwedd y cyfnod tair blynedd yma, ac rydym bellach wedi cael cadarnhad y bydd y grant yn parhau am ddwy flynedd arall. O ganlyniad bu gofyniad i ni ddiweddarau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod nesaf.
- 1.11 Rydym bellach ar gychwyn rhaglen waith newydd, fydd yn ymestyn i 2021, ac yn edrych ar ardaloedd newydd i weithredu.
- 1.12 Bydd gweithio i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc yn benodol yn flaenoriaeth, ynghyd a gwaith mapio fydd yn ychwanegu at ein sylfaen tystiolaeth, ac yn ein galluogi i adnabod ardaloedd newydd i weithio ynddynt i'r dyfodol.
- 1.13 Yn yr adroddiad hwn, edrychir yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, ar lwyddiannau gwaith y fenter a'r gwersi a ddysgwyd, a chyflwyno esiamplau o waith y swyddogion er mwyn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r math o ymyraethau sydd yn cael eu cynllunio ar draws y gwahanol feysydd.

2. Trosolwg o waith 2018-19

2.1 Arfer da dros y flwyddyn

Cydweithio:

Bu 2018-19 yn flwyddyn dda o ran datblygu partneriaethau ymhellach gyda rhai partneriaid allweddol, a'r buddsoddiad amser i gyd-gynllunio a chydweithio yn talu. Rydym wastad wedi ceisio cynnal perthynas weithio dda gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio yn y maes, ond eleni, canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r berthynas gyda dau bartner penodol, sef Cymraeg i Blant a Grŵp Llandrillo Menai. Drwy ddatblygu prosiect ar y cyd gyda Cymraeg i Blant hefyd cryfhawyd y cyswllt gyda gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar y Cyngor.

Mae'r cydweithio ar draws y Mentrau Iaith yn gyffredinol wedi datblygu hefyd, gyda Mentrau Iaith Cymru (y sefydliad ambarél sydd yn cefnogi gwaith y mentrau ar draws Cymru) yn arwain ar sawl prosiect cenedlaethol a chynlluniau hefyd i gydweithio i'r dyfodol rhwng mentrau iaith rhanbarth y Gogledd.

Arfogi a datblygu cyfleoedd newydd:

Rydym wedi sicrhau bod y tîm yn cael rhyddid o fewn eu rhaglenni gwaith i arbrofi gyda dulliau neu syniadau newydd. Rhoddwn bwys mawr ar arfogi eraill, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol bob amser, ac ar geisio canfod partneriaid fydd yn sicrhau cynaladwyedd yn y cymunedau.

Drwy gomisiynu gweithwyr llawrydd i gynnal gweithgareddau mewn ardaloedd newydd er enghraifft, rydym yn gallu dangos cyfleoedd masnachol iddynt. Comisiynwyd Sŵn a Sbri yn ystod blwyddyn 2017-18 i wneud sesiynau yn ardal Dwyfor ac mae'r darparwr bellach yn cynnal sesiynau rheolaidd yno yn annibynnol o Hunaniaith. Gweithredu fel sbardun yw'r bwriad felly.

Eleni, cafwyd cydweithio llwyddiannus gyda thri chlwb golff yn Nwyfor er mwyn ymestyn y ddarpariaeth o adloniant Cymraeg i gynulleidfaoedd a lleoliadau newydd. O ganlyniad, mae cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg wedi cynyddu mewn ardaloedd fel Porthmadog a Morfa Bychan ac Abersoch, ac mae'r busnesau wedi sylweddoli bod mantais ariannol iddynt ddarparu adloniant Cymraeg ac wedi mynd ati i drefnu nosweithiau dilynol eu hunain.

2.2 Llwyddiannau prosiectau penodol:

Seminar Blynyddoedd Cynnar:

Dyma'r ail flwyddyn i hunaniaith gynnal seminar ar gyfer gweithwyr yn y maes, gyda phob sesiwn yn cael eu llenwi. Y gynulleidfa darged wreiddiol oedd gweithwyr annibynnol a llawrydd yn y maes, megis pobl sydd yn cynnal sesiynau adloniannol i rieni a phlant ifanc, ond roedd yn ddifyr gweld bod nifer o weithwyr Cylchoedd Meithrin a gwarchodwyr plant annibynnol hefyd yn cofrestru ar gyfer y sesiynau.

Roedd Cymraeg i Blant yn bartner i'r gweithgareddau gwreiddiol yn 2018-19, ond yn ystod 2018-19, ychwanegwyd cynrychiolaeth o uned blynyddoedd cynnar y gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd i'r sesiynau hefyd. Cafwyd adborth hynod adeiladol a chadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y gall y sesiynau yma barhau yn y dyfodol.

24 unigolyn a 14 lleoliad wedi eu cynrychioli yn y ddwy sesiwn yn ystod 2018.

Gweithgaredd Gwyn ap Nudd:

Roedd hwn yn enghraifft dda o ddau beth - cydweithio gyda darparwr arall er mwyn ychwanegu gwerth, a hefyd sut mae teilwra gweithgaredd er mwyn cael y dylanwad gorau.

Roeddem wedi adnabod bod nifer o'n gweithgareddau dan y maes teuluoedd yn mynd yn rhai rhy oddefol - plant yn dod i wyllo sioe - yn hytrach na bod yn weithgareddau rhyngweithiol oedd yn cynnwys y teulu cyfan. Nod y gwaith yn y maes hwn yw dylanwadu ar ddefnydd iaith ymysg y teulu, ac felly gwelwyd bod angen meddwl yn fwy gofalus am y math o weithgareddau oedd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y nod. Roedd y

gweithgaredd hwn yn un rhyngweithiol, felly, yn cynnwys yr oedolion a'r plant, ac yn eu cyflwyno i agweddau newydd ar hanes a chwedloniaeth/traddodiad Cymreig hynafol.

Roedd gweithio mewn partneriaeth efo'r Galeri yn fodd o ddenu cynulleidfa ehangach, oherwydd eu henw da a'u grym marchnata, a gwelwyd bod hyn hefyd yn codi proffil Hunaniaith.

22 plentyn a 18 oedolion wedi mynychu dwy sesiwn.

Prosiect Awyr Agored Bangor:

Mae'r prosiect hwn yn un sydd wedi ei weithredu dros dair blynedd, gan anelu at weithio yn ddwys gyda charfan fechan o bobl ifanc, er mwyn gweld a ellir dylanwadu ar batrymau ac arferion iaith drwy ymyrraeth gyson. Caiff y prosiect ei arwain, dan gomisiwn, gan Wasanaeth Awyr Agored yr Urdd ac mae'n cynnwys 6 gweithgaredd awyr agored i 15 o bobl ifanc mewn blwyddyn. Mae'n eu cyflwyno i weithgareddau newydd ac i hanes a daearyddiaeth leol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cyflogaeth mewn maes twf yn lleol. Bydd effaith yr ymyrraeth hon yn cael ei werthuso yn llawn ar ddiwedd y prosiect.

Datblygiad Canolfan Iaith Popdy:

Mae'r Swyddog Datblygu ym Mangor wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu defnydd o'r ganolfan fel adnodd a lleoliad gweithgareddau. Bellach, cynhelir sesiynau rheolaidd yn Popdy, gyda nifer o sesiynau teuluol yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau ysgol a'r ganolfan yn cael defnydd wythnosol gan Aelwyd yr Urdd a Chymraeg i Blant.

2.3 Gwersi a ddysgwyd a meysydd gwella:

i) Cydweithio gyda grwpiau cymunedol

Mae ein dibyniaeth ni ar ewyllys da pobl i weithio yn y cymunedau, a thuedd i orddibynnu ar adnodd staff cyflogedig i gynnal gweithgarwch, yn gallu bod yn rhwystr.

Er enghraifft, gwelwyd yn ystod y flwyddyn nad oedd y prosiect **MAD (Mudiad Adloniant Dolgellau)** a sefydlwyd gan y Swyddog Datblygu yn Nolgellau bron bedair blynedd yn ôl, bellach yn gweithio. Wrth i'r unigolion newid o un flwyddyn ysgol i'r llall, gwelwyd yr ymrwymiad yn gwanhau, ac nid oedd yr un buddsoddiad a brwdfrydedd i'w weld. Mae hyn yn dangos pa mor anghyson y gall gwaith cymunedol fod gan ein bod yn ddibynol ar gyswllt gyda'r bobl iawn ar yr amser iawn.

Eleni gosodwyd targed i weithio gyda grwpiau oedd yn draddodiadol wedi cynnal gweithgareddau yn Saesneg, gyda'r bwriad o geisio dylanwadu i newid arferion iaith a chynyddu cyfleoedd i blant. Mae hyn wedi bod yn heriol, a bydd angen i ni feddwl sut i gefnogi ac annog grwpiau o'r fath yn y dyfodol. Mae'r rhwystrau yn codi yn sgil diffyg ymrwymiad a diddordeb ymysg gwirfoddolwyr (sydd bennaf ddi-Gymraeg) i newid. Mae nifer o ddarparwyr hefyd yn ffafrio'r Saesneg, er gwaethaf gallu siarad Cymraeg, naill ai oherwydd mai dyna yw'r arferiad wedi bod ers rhai blynyddoedd a'u bod yn

awyddus i sicrhau bod “pawb yn deall”, neu eu bod yn darparu yn neilltuol i gymunedau sydd yn cael eu hystyried yn rhai di-Gymraeg.

Bydd angen bod yn ofalus wrth lunio grwpiau gweithredu mewn cymuned newydd ein bod yn cynnwys pobl sydd a’r awydd a’r brwdfrydedd i gydweithio yn y tymor hir, ac i gymryd cyfrifoldeb am elfennau o’r gwaith hybu yn eu cymunedau.

ii) ***Gweithio yn fwy dwys gyda charfan fechan***

Mae tuedd i gynnal gweithgareddau unigol, yn hytrach na threfnu cyfres o weithgareddau gyda’r un grŵp o unigolion. Mae’r teithiau i blant ifanc a drefnwyd yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran denu niferoedd mawr, ond nid ydym yn sefydlu perthynas gyda’r unigolion er mwyn gweld a yw’r digwyddiadau yn cyfrannu at newid yn eu defnydd iaith.

Mae angen meddwl am sut y gallwn weithio gyda’r un garfan neu grŵp o bobl dros gyfnod o amser er mwyn cael y dylanwad gorau.

iii) ***Sylfaen tystiolaeth***

Rydym wedi bod yn gweithio mewn ardaloedd a gafodd eu hadnabod a’u targedu ar sail canlyniadau cyfrifiad 2011. Wrth geisio meddwl am ardaloedd newydd i ddechrau gweithio ynddynt gwelwyd nad oedd llawer o sylfaen tystiolaeth ar wahân i ddata’r cyfrifiad sydd yn ein harwain yn naturiol i leoliadau newydd. O ystyried ein bod bellach yn agosach at y cyfrifiad nesaf na’r diwethaf hefyd, mae peryg bod y darlun bellach yn wahanol i’r hyn sydd yn y cyfrifiad.

Rydym angen edrych ar gyfleoedd i gasglu tystiolaeth a gwneud gwaith ymchwil felly, fydd yn sail i ni weithredu mewn dulliau neu ardaloedd penodol. Rydym wedi defnyddio gweithgareddau teuluol lleol yn ddiweddar, er enghraifft, i gasglu gwybodaeth am arferion symud a theithio rhieni wrth fynychu gweithgareddau gyda phlant cyn oed ysgol.

iv) ***Canolbwyntio ymdrechion a gwneud y defnydd gorau o adnoddau***

O geisio gweithio ar draws y gwahanol feysydd blaenoriaeth, hyd yn oed mewn un ardal ddaearyddol fychan, mae peryg ein bod yn ceisio bod yn bob dim i bawb, ac yn y pen draw yn gwasgaru ein hunain rhy denau, heb gael yr effaith gorau posib.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ymdrechion mewn ardaloedd megis Tywyn ar weithio gydag un grŵp o bobl (plant a phobl ifanc yn yr achos hwn), er mwyn gweld a fydd hynny yn arwain at fwy o newid mesuradwy.

v) ***Addasu blaenoriaethau***

Wrth fonitro cynnydd targedau yn gyson, gallwn adnabod yn fuan pan na fydd targed neu brosiect yn gweithio fel y bwriad, a phenderfynu naill ai i roi’r gorau i’r prosiect a gwneud cais i’r Llywodraeth i newid targed, neu i addasu’r ffordd o weithio. Rhaid bod yn ofalus fodd bynnag, wrth gynnig cael gwared ar darged ein bod yn cynnig targed newydd sydd yn gyfwerth, ac sydd yn ceisio ateb yr un angen neu nod.

vi) ***Perthynas gyda’r Adran Addysg a gwaith y Strategaeth Iaith Uwchradd***

Mae cyfleoedd amlwg i hunaniaith gyfrannu at waith y strategaeth uwchradd er mwyn ychwanegu gwerth a sicrhau bod ysgolion yn rhoi sylw priodol i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd anffurfiol/cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg

Eitem 8

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	1af Mai, 2019
TEITL	Cyfarfodydd Pwyllgor Iaith
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth a Iaith

Cefndir

Amcan yr adroddiad yw ystyried nifer o gyfarfodydd cyffredin y Pwyllgor a gynhelir yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol. Bydd Aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol fod gwaith cyffelyb wedi ei wneud gan rai pwyllgorau eisoes.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar sail rhaglen o pedwar cyfarfod y flwyddyn. Er hynny, mae adegau pan mae'r rhaglen yn bennaf er gwybodaeth. Mae lle i ystyried yr angen am bedwar cyfarfod sefydlog blynyddol y gellir, efallai eu crynhoi i ddau neu dri.

Wrth adolygu'r rhaglen waith blynyddol ymddengys y byddai cynnal tri cyfarfod yn caniatáu i gynnal y rhaglen heb danseilio cynnal y gweithgareddau. Petai angen cyfarfod arbennig neu benodol yna gellir darparu ar gyfer hyn.

Gellir gweld y nifer eitemau a hyd y cyfarfodydd sydd wedi eu cynnal ers mis Mai 2017 yn atodiad A, fydd o gymorth i'r aelodau wrth ystyried nifer ac amllder cyfarfodydd y pwyllgor.

ARGYMHELLIAD

Ceisio barn y Pwyllgor ar amllder a nifer cyfarfodydd y Pwyllgor.

Atodiad A

PWYLLGOR IAITH - MAI 2017 - IONAWR 2019				
Dyddiad	ENW YR EITEM	Nifer o eitemau	Hyd y cyfarfod (AWR)	hyd y cyfarfod mewn munudau
17/01/19	<ol style="list-style-type: none"> Adroddiad Aelod Cabinet. Diweddariad. Adroddiad sicrwydd comisiynydd y Gymraeg - mesur o lwyddiant. Adroddiad cynnydd cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg. Ail-strwythuro canolfannau iaith. Cwynion iaith. 	5	2.45	165
18/10/18	<ol style="list-style-type: none"> Adroddiad Aelod Cabinet. Rhaglen waith y Cynllun Hybu. Rhaglen waith y Pwyllgor Iaith. Newid ymddygiad ac arferion iaith. Cwynion iaith. Mesur o lwyddiant: Crynodeb o adroddiad sicrwydd comisiynydd y Gymraeg 2017/18. 	6	2	120
10/07/18	<ol style="list-style-type: none"> Adroddiad Aelod Cabinet Y Gymraeg. Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y safonau iaith. Ymgynghoriad Cynllun hybu'r Gymraeg. Cymraeg yn y gweithle. Mwy na Geiriau Cwynion iaith 	6	1.3	90
2017/18				
24/04/18	<ol style="list-style-type: none"> Ymgynghoriad Strategaeth iaith. Adroddiad ar bolisi enwau llefydd y cyngor. Cyflwyniad Tan20 - Adran Gynllunio. Cwynion ac Ymchwiliadau. 	4	2	120
27/02/18	<ol style="list-style-type: none"> Adroddiad yr Aelod Cabinet - Y Gymraeg. Strategaeth iaith Gwynedd. Strategaeth iaith Uwchradd. Cyflwyniad i Waith Hunaniaeth. 	4	Heb ei gofnodi	Heb ei gofnodi

PWYLLGOR IAITH - MAI 2017 - IONAWR 2019				
Dyddiad	ENW YR EITEM	Nifer o eitemau	Hyd y cyfarfod (AWR)	hyd y cyfarfod mewn munudau
12/10/17	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiad yr Aelod Cabinet - Y Gymraeg. 2. Ymateb i ddogfen ymgynghorol papur gwyn Y Llywodraeth - Taro'r cydbwysedd iawn: Cynigion ar gyfer Bil Y Gymraeg. 3. Rhaglen with y Pwyllgor Iaith. 4. Cwynion ac ymchwiliadau. 5. Canllaw Cynllunio Atodol. 	5	2.25	145
04/07/17	<ol style="list-style-type: none"> 1. Adroddiad Yr Aelod Cabinet - Y Gymraeg. 2. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Iaith. 3. Y drefn gwynion gorfforaethol. 4. Adroddiad blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y safonau iaith. 5. Gwireddu'r uchelgais - ymateb i strategaeth Gymraeg Newydd Llywodraeth Cymru. 	5	1.3	90